CYPE(5)-08-21 - Papur i'w nodi 3

**Cyfarfod bord gron gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 14 Ionawr 2021 – crynodeb o'r trafodaethau**

## Cefndir

Cynhaliodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfarfod bord gron gydag uwch ffigurau yn y sector plant. Diben y cyfarfod oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhai a oedd yn bresennol am y cynnydd ar Hawliau Plant yng Nghymru a gwrando ar syniadau, pryderon a sylwadau rhanddeiliaid allweddol. Mae rhestr lawn o'r rhai a oedd yn bresennol ar gael yn Atodiad A.

Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog bwysigrwydd cydweithio â rhanddeiliaid a phartneriaid. Gofynnodd y Dirprwy Weinidog y cwestiynau canlynol ac mae'r ymatebion i'r cwestiynau wedi'u cynnwys isod:

1. **Beth sydd wedi mynd yn dda o ran ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig Covid-19?**
    - Ffocws y Dirprwy Weinidog a Llywodraeth Cymru ar hawliau plant yn ystod y pandemig – cyfrifoldeb y llywodraeth gyfan ydyw.
    - Camau cadarnhaol a gymerwyd gan y Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer gwella canlyniadau i blant.
    - Mwy o ffocws polisi ar fynd i'r afael â materion cydraddoldeb ac anfantais – cefnogaeth i benderfyniad Llywodraeth Cymru i ddarparu prydau ysgol am ddim drwy gydol y flwyddyn.
    - Y ffocws ar wrando ar blant yn ystod y pandemig a gwaith Llywodraeth Cymru o ran cyfranogiad, gan gynnwys sgyrsiau sydd wedi digwydd rhwng y Prif Weinidog a phlant a phobl ifanc. Dylai'r sgyrsiau hyn barhau. Ystyriwyd bod y prosiect 1,000 o Leisiau Cymru yn enghraifft o gyfranogiad effeithiol.
    - Mwy o amser i rieni maeth allu ei dreulio gyda'u plant sydd wedi arwain at well perthynas.
    - Mae UNICEF yn aml yn troi at Gymru am arfer da o ran hawliau plant.
    - Gwelliannau yn ansawdd a manylder yr Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant mewn cysylltiad â'r pandemig Covid-19.
    - Nifer y cyfleoedd ystyrlon i randdeiliaid yn y sector plant rannu eu barn yn uniongyrchol â Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, mae nifer o gamau cadarnhaol wedi dod i'r amlwg o'r gwahanol weithgorau.
    - Cydnabyddiaeth o wydnwch pobl ifanc a pha mor dda y maent wedi ymateb i'r argyfwng.

2. **Sut y gallem wella ein hymateb i'r pandemig Covid-19?**
   - Angen deall sut y gellir cefnogi pob plentyn i ddysgu pan fo amharu'n sylweddol ar ddysgu confensiynol.
   - Canolbwyntio ar gyrhaeddiad addysgol plant mewn gofal a phwysigrwydd parhad cysylltiadau er mwyn sicrhau bod dilyniant effeithiol mewn dysgu yn cael ei bwysleisio.
   - Nid yw rhai gwasanaethau cyhoeddus wedi deall hawliau plant ac maent wedi defnyddio 'dull sy'n seiliedig ar oedolion' i rannau o'u darpariaeth. Er enghraifft, nid oedd rhai plant yn y ddalfa yn gallu gadael eu cell ac eithrio am gyfnod cyfyngedig iawn pan oedd y pandemig yn ei anterth. Mae rhai cartrefi plant yn defnyddio cyfnodau ynysu y tu hwnt i 10 diwrnod gan ddibynnu ar ddehongliad lleol o ganllawiau iechyd y cyhoedd.
   - Diffyg ffocws ar rianta corfforaethol (y cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y byddai wedi symud ymlaen mewn amgylchiadau arferol).
   - Pwysigrwydd ystyried effaith hirdymor y pandemig ar blant a phobl ifanc. Er bod effeithiau tymor byr yn cael eu hystyried, bydd effaith hirdymor ar y canlynol:-
     - plant yn cael eu gwthio i dlodi
     - iechyd meddwl sy'n gwaethygu
     - anghydraddoldebau addysg
     - mwy o risg o gam-drin.
   - Nodwyd y pwysau eithriadol ar blant yn ystod y pandemig, a'r pwysau ar rieni i ddod yn 'athrawon'.
   - Pwysigrwydd adnewyddu ac ailedrych ar Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn adlewyrchu newidiadau polisi.
   - Diffyg cysylltedd mewn ardaloedd gwledig a'r morâl isel a blinder sy'n deillio o barhau i ddysgu ar-lein, ar gyfer plant a rhieni.

3. **Ystyriaethau yn y dyfodol**
   - Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu trefn genedlaethol i ystyried a gweithredu Cytundebau/confensiynau'r Cenhedloedd Unedig fel yr argymhellwyd yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *Children's Rights in Great Britain*.
   - Mae adroddiad grŵp Monitro CCUHP, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, yn argymell ail-edrych ar y ddeddfwriaeth a'r disgwyliadau a osodir ar gyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â hawliau plant. Mae nifer o wasanaethau'n cael eu darparu gan gyrff cyhoeddus ond heb ofyniad cyfreithiol i roi sylw dyledus i hawliau plant.
   - Cyn bo hir, bydd Plant yng Nghymru yn cysylltu â'u haelodau i ofyn am eu barn/pryderon/cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Disgwylir y bydd allgáu digidol yn dod i'r amlwg fel mater allweddol.
   - Ystyried yr adroddiad Cyfiawnder Ieuenctid diweddar a'r ymateb i Covid-19 a wnaeth nifer o awgrymiadau.

4. **Barn ar y trefniadau arfaethedig fel y'u nodir yng Nghynllun Hawliau Plant 2021**
    - Croesawyd y Cynllun Hawliau Plant 'rhagorol' a’r fersiwn i bobl ifanc.
    - Pwysleisiwyd pwysigrwydd dogfennau polisi yn iaith pobl ifanc. Roedd fersiwn y person ifanc o'r Cynllun Hawliau Plant yn esiampl ar gyfer meysydd polisi eraill.
    - Y mis nesaf bydd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn rhoi sylwadau cychwynnol i Lywodraeth Cymru fel rhan o'i hadolygiad cyfnodol nesaf. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r adroddiad hwn i fwydo i mewn i ymgynghoriad y Cynllun Hawliau Plant.
    - Mae cyfle i ddefnyddio'r Cynllun Hawliau Plant i ymgorffori hawliau plant mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth – er enghraifft y cwricwlwm newydd. Gallai hyn fod yn gyfle da i gael 'buddugoliaeth gyflym'.
    - Pwysigrwydd hyfforddiant i gefnogi hawliau'r plant. Cyfeiriwyd at ganfyddiadau allweddol y gwerthusiad i'r contract hyfforddi allanol gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a bwysleisiodd werth hyfforddiant sy'n benodol i'r sector a phwysigrwydd cyd-destunoli hawliau i rolau'r rhai sy'n mynychu.
    - Cynnwys cyfeiriad at y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol o fewn y Cynllun drafft a datblygu fframwaith cenedlaethol i wireddu erthygl 12 o CCUHP.
    - Pwysigrwydd Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant o safon wrth helpu rhanddeiliaid i ddeall sut y caiff hawliau plant eu hystyried yn y broses o lunio polisïau. Dywedwyd bod Cymru'n arwain y byd yn y maes hwn.
    - Croesawu'r pwyslais yn y cwricwlwm newydd ar greu dinasyddion moesegol a gwybodus. Fodd bynnag, yr her fydd sut y caiff hyn ei gyflawni'n effeithiol yn ymarferol. Mae angen ymgysylltu â'r proffesiwn addysgu a phlant a phobl ifanc i bwysleisio pwysigrwydd cyfranogiad ystyrlon nad yw bob amser yn gyson.

5. **Ystyriaethau ar gyfer y Cynllun Hawliau Plant yn y dyfodol**
    - Archwilio hyfforddiant cyfredol CCUHP i sicrhau ei fod yn cael ei dargedu'n effeithiol.
    - Llywodraeth Cymru i ystyried cyflwyno'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel offeryn statudol. Gallai hyn fod yn un o argymhellion adroddiad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig.
    - Croesawyd ymateb Llywodraeth Cymru i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Hawliau Plant. Bydd y rhai sy'n bresennol yn monitro sut y caiff yr argymhellion eu gweithredu a sut y bydd y rhain yn cysylltu â'r Cynllun diwygiedig.

6. **Enwebiadau ar gyfer y grŵp cyfeirio allanol ar godi ymwybyddiaeth**

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol nodi a oeddent yn hapus i fod yn rhan o'r grŵp cyfeirio allanol ar godi ymwybyddiaeth.

**Atodiad A - Yn bresennol:**

- Dr Caroline Lohmann-Hancock, Uwch Ddarlithydd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Catherine Davies, Swyddog Polisi Dysgu Gydol Oes (Plant), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- David Melding, Aelod o'r Senedd
- Dragan Nastic, Uwch Gynghorydd Polisi ac Eiriolaeth, UNICEF
- Helen Mary Jones, Aelod o'r Senedd
- Yr Athro Jane Williams, Athro'r Gyfraith, Prifysgol Abertawe
- Dr. Nichola Welton, Uwch Ddarlithydd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Owen Evans, Prif Swyddog Gweithredol, Plant yng Nghymru
- Rachel Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
- Ruth Coombes, Pennaeth Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru
- Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru
- Siân Thomas, Gwasanaeth Ymchwil y Senedd – sylwedydd (ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg)
- Yr Athro Simon Hoffman, Athro'r Gyfraith, Prifysgol Abertawe

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

- Amy Hope, Is-adran Plant a Theuluoedd
- Jonathan Scourfield, Cynghorydd Arbennig
- Karen Cornish, Is-adran Plant a Theuluoedd
- Karyn Pittick, Is-adran Plant a Theuluoedd
- Rhys Davies, Is-adran Plant a Theuluoedd
- Sarah Melkevik, Is-adran Plant a Theuluoedd